



www.ysgolbotwnnog.org



YN Y BWLETIN
TYMOR YMA

- ✓ DYDDIADAU PWYSIG
- ✓ BLWYDDYN 11- ARHOLIADAU...
- ✓ CEFNOGI EICH PLENTYN
- ✓ PRESENOLDEB
- ✓ AROLWG ESTYN
- ... A MWY

NEGES GAN Y PRIFATHRO

Blwyddyn Newydd Dda

Gobeithio y cawsoch chi gyd 'Ddolg wrth eich bodd.

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn newydd arall - mae hi'n siŵr o fod yn flwyddyn llawn prysurdeb eto eleni.

Dymunaf flwyddyn newydd dda a llwyddiannus i bob un ohonoch.

Cofion,

Dylan Minnice (Prifathro)

Mae'r bwletin yma ar gael ar wefan yr ysgol -

<http://ysgolbotwnnog.org/newyddion.html>

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os ydych am gysylltu â ni yna gallwch wneud mewn sawl ffordd:

☎ 01758 730220

✉ pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk

neu gan ddefnyddio'r ffurflen ar lein ar ein gwefan www.ysgolbotwnnog.org/cysylltu.php

DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL

Dyddiadau gwyliau hanner tymor ydi **Chwefror 15^{eg}—23^{ain}**.

Dyddiadau gwyliau'r Pasg ydi **Ebrill 4^{ydd} - Ebrill 19^{eg}**.

Sylwch fod Gŵyl y Banc Calan Mai eleni ar **DDYDD GWENER, Mai'r 8^{fed}**.

CYFARFODYDD RHINI AC ATHRAWON

Mae cyfarfodydd rhieni wedi eu trefnu ar y dyddiadau canlynol, o 4 y.h - 6 y.h. Byddwn yn llythyr â chi cyn pob cyfarfod i weld os ydych yn bwriadu bod yn bresennol. Mae'r rhain yn gyfarfodydd pwysig iawn er mwyn cadw golwg ar gynnydd eich mab/merch.

Blwyddyn 9

(yn cynnwys dewisiadau bl 10/11)

Cyfarfod estynedig 4 y.h. - 7 y.h

Blwyddyn 8

Blwyddyn 10

Blwyddyn 11

Ionawr 21

Mai 19

Mai 5

Chwefror 25

DYDDIADAU ARHOLIADAU MEWNOL BL 10 AC 11

Ffug arholiadau Blwyddyn 11 Chwefror 6 - 13

Arholiadau mewnol Blwyddyn 10 Ebrill 22 - 28

BLWYDDYN 11

Mae'r ddau dymor nesaf yn rhai hynod o bwysig i ddisgyblion Blwyddyn 11 wrth baratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU ac wrth gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

ARHOLIADAU ALLANOL

Bydd disgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll arholiadau **ALLANOL** (sydd **YN** cyfrif tuag at eu graddau terfynol) ar sawl adeg yn ystod y ddau dymor.

Byddwch yn derbyn amserlen bersonol ddrafft ar gyfer arholiadau Mai a Mehefin yn y noson rieni ar Chwefror 25. Mae amserlen arholiadau TGAU gyffredinol ar gael ar wefan yr ysgol yn yr adran '**Disgyblion**'.

IONAWR - BLWYDDYN 11

Aseiad Ymarferol Gwyddoniaeth (yn y gwersi Gwyddoniaeth)..... Ionawr 20-23
Cymraeg Iaith (Ilfar - set 1) Ionawr 21

CHWEFROR - BLWYDDYN 11

Addysg Gorfforol (TGAU - ymarferol - aseiad terfynol) Ionawr 27/29
Addysg Gorfforol (TGAU - safonwr allanol (i'w gadarnhau))..... Chwefror 25

MAWRTH/EBRILL - BLWYDDYN 11

Arholiad ymarferol TGAU Drama..... Mawrth 9 (ymarferion gwisg/technegol Mawrth 2-6)
Arholiad Celf (gweler isod*) Mawrth 16 ac 17
Arholiad Bwyd a Maeth Ymarferol Mawrth 17 (os nad ydynt yn gwneud celf) a 24 (os ydynt yn gwneud celf)
Cymraeg - Llên (Uned 3—Ilfar) Ebrill 1 (Sylfaenol) /2 (Uwch)
Cymraeg - Ail iaith Ilfar U1: Ebrill 21, U2: Ebrill 28
Ffrangeg—Ilfar (i'w gadarnhau yn derfynol) Ebrill 22/23

* Mae'r disgyblion eisoes wedi cael y papur arholiad Celf ac wedi cychwyn ar y gwaith paratoi ar gyfer yr arholiad terfynol sydd ar y dyddiadau uchod. Mae'r gwaith paratoi werth 40% o'r marc terfynol.

ASESIADAU DAN REOLAETH (GWAITH CWRS)

Mae Aseidiadau dan Reolaeth (*gwaith cwrs gynt*) yn bwysig yn y rhan fwyaf o bynciau. Maent yn cyfrif rhwng 20% a 60% o'r marc terfynol ym mron bob pwnc TGAU. Bydd angen sicrhau fod y rhain i gyd yn cael eu cwblhau i'r safon uchaf posibl i anelu am y graddau uchaf yn y TGAU. Cynhelir rhain drwy gydol blynnyddoedd 10 ac 11 mewn amryw o bynciau—o'r wers gyntaf ym mlwyddyn 10 tan mis Mai blwyddyn 11. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gorfod cael eu cwblhau o fewn hyn a hyn o oriau mewn gwersi dan oruchwyliaeth athro - mae presenoldeb yn y gwersi hyn yn hanfodol, ac os ydy eich mab/merch yn absennol o'r gwersi yna bydd rhaid iddynt ddal i fyny amser cinio neu ar ôl ysgol.

FFUG ARHOLIADAU (MOCS) BL 11 - CHWEFROR 6 - 13

Cynhelir ffug arholiadau TGAU blwyddyn 11 yn y cyfnod **Chwefror 6 - 13**.

Ffug arholiadau Ilfar Ffrangeg—Dydd Iau, Ionawr 30 a Dydd Llun, Chwefror 3.

CLWB GWAITH CARTREF

Pob nos Lun a Mercher o 3.30 - 5.00 mae cyfle i ddisgyblion aros yn yr ysgol yn y Llyfrgell a'r Ganolfan Adnoddau i gwblhau gwaith. Bydd aelod o staff yno i'w cynorthwyo os ydynt angen.

Gellir trefnu i'ch mab/merch aros yn y Clwb Gwaith Cartref trwy gysylltu â'r ysgol.

YSTAFELL WAITH / ANOGAETH

Gall y disgyblion fanteisio ar y cyfle i weithio amser egwyl/cinio yn y Llyfrgell neu'r Ystafell Adnoddau lle gallant dderbyn cymorth gan aelod o staff os ydynt ei angen.

CYFARFOD RHIENI BLWYDDYN 11

Mae cyfarfod rhieni wedi ei drefnu ar gyfer Blwyddyn 11 ar Chwefror 25^{ain}. Cyfle olaf swyddogol i chi drafod gwaith eich mab/merch gyda'r athrawon gan gynnwys canlyniadau y ffug arholiadau.

BLWYDDYN 11 - Y FLWYDDYN NESAF...

Dosberthir brosbectws Coleg Meirion-Dwyfor/Menai i ddisgyblion Blwyddyn 11 dechrau'r tymor yma. Bydd cynrychiolydd o'r Coleg yn ymweld â'r Ysgol i drafod gwneud cais ar-lein gyda'r disgyblion a byddant hefyd yn bresennol yn noson rieni mis Chwefror. Mae gwybodaeth am gyrсияu a sut i wneud cais ar wefan y coleg. Bydd hefyd cyfle i wneud ceisiadau am brentisiaethau. Bydd

Yn y cyfamser, os nad ydynt yn siŵr beth yw eu hopsiynau ar ôl gadael ysgol, gallant ofyn am apwyntiad i drafod posibilïadau'r flwyddyn nesaf gyda **Mrs Nia Parry - Ymgynghorydd Gyrfa Cymru'r Ysgol**.

Byddwch yn cael gwybodaeth am ddigwyddiadau agored yng Ngholegau Meirion-Dwyfor a Menai yn uniongyrchol gan y colegau. Mae gwybodaeth am y rhain yn y brosbectws a hefyd ar eu gwefan:

www.gllm.ac.uk/events

Crynodeb:

Noson Wybodaeth Pwllheli :	Ionawr 29 (17:00-19:00)
Noson Wybodaeth Bangor/Parc Menai :	Chwefror 4 / Mehefin 16 (17:00-19:00)
Noson Wybodaeth Dolgellau :	Ionawr 16 (17:00-19:00)
Noson Wybodaeth Llangefni :	Chwefror 13 / Mehefin 18 (16:30-19:00)
Pnawn Gwybodaeth Glynllifon :	Mawrth 4 (15:00 - 17:00)

CEFNOGAETH I'CH MAB / MERCH

Yn Ysgol Botwnnog 'rydym yn ymdrechu i roi'r gofal gorau i bob disgybl, ac os yw eich mab / merch yn cael amser anodd neu yn cael trafferthion gyda'u gwaith neu broblemau lles, yna mae gennym nifer o arbenigwyr a all eu helpu:

Mr Aled Williams	Dirprwy Brifathro / Lles
Mrs Alaw Jones Japheth	Lles y Merched
Mr Eurig Davies a Miss Ffion Jones	Cyd-gysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol
Mrs Carol Pilling a Mrs Ann James	Anogwyr Dysgu / Mentoriaid
Ms Julie Bulman	Nyrs Ysgol
Ms Deneise Jones	Cwnselydd
Mrs Carys Hughes	Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod

Os hoffech i ni gyfeirio eich mab / merch at un o'r uchod yna cysylltwch â Mr Aled Williams, y Dirprwy Brifathro.

CEFNOGI EICH PLENTYN GYDA GWAITH YSGOL

- Dangoswch ddiddordeb yng ngwaith ysgol eich plentyn a rhowch gefnogaeth yn ôl beth mae o / hi ei angen. Cofiwch fod presenoldeb da yn hanfodol - peidiwch â threfnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol.
- Trafodwch beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen bob dydd a sut medrwyd chi fod o gymorth.
- Edrychwch ar lyfrau eich plentyn i ddod i ddeall pa waith sydd yn cael ei wneud. Helpwch efo'r dysgu trwy holi a chwestiynu am y gwaith.
- Holwch am waith/gwaith cartref eich plentyn a gosod rheolau ynglŷn â'i gwblhau.
- Siaradwch am ddisgwyliadau gyda'ch plentyn, beth mae'n obeithio'i gael fel graddau, a lle hoffai barhau â'i addysg/hyfforddiant. Anogwch eich plentyn i wneud ei orau ac anelu yn uchel.
- Sicrhewch fod eich plentyn gyda lle tawel i wneud gwaith ysgol. Ceisiwch sicrhau nad yw unrhyw beth fel ffôn/cyfrifiadur/teledu yn tarfu ar eich plentyn wrth wneud gwaith ysgol.
- Helpwch eich plentyn i drefnu'r gwaith gan roi digon o amser i baratoi at brofion ac arholiadau.
- Dewch i ddeall pwysigrwydd asesiadau dan reolaeth ac arholiadau i strwythur y cyrsiau TGAU. Gwnewch yn saff eich bod yn gwybod pa bryd mae profion, asesiadau ac arholiadau pwysig. Byddwn yn eich hysbysu drwy'r bwletin yma a thrwy e-byst.
- Dewch i gyfarfodydd rhieni i drafod gwaith eich plentyn gyda'r athrawon.
- Os nad ydych yn sicr am unrhyw beth, neu angen cyngor cysylltwch â'r ysgol i siarad efo Mr Dylan Minnice neu Mr Aled Williams.

PRESENOLDEB

Rydych wedi cael ystadegau ar bresenoldeb eich mab/merch am y tymor cyntaf yn adroddiad interim diwedd tymor diwethaf. Rydym yn cydymdeimlo ag unrhyw ddisgyblion cafodd eu trawo yn sâl yn y cyfnod cyn y 'Dolig pan fu gryn salwch o gwmpas. Serch hynny, braf yw adrodd fod chwarter y disgyblion wedi colli diwrnod neu lai o ysgol yn ystod y tymor - gyda 51 o ddisgyblion heb golli'r un diwrnod o gwbl - Da iawn chi!

Targed pawb ar gyfer y flwyddyn gyfan ydi presenoldeb o o leiaf 96%. Golyga hynny golli dim mwy na 8 diwrnod yn ystod y flwyddyn.

Canran	100%	97%+	96%+	93%+	90%+	85%+	Llai na 85%
Disgrifiad	Gwych	Da iawn	Da	Boddhaol	Peri pryder	Angen sylw	Anfoddhaol
Dyddiau a gollwyd	0	Dim mwy na 6 diwrnod	Dim mwy na 8 diwrnod	Dim mwy na 13 diwrnod	Dim mwy na 19 diwrnod	Dim mwy na 29 diwrnod	29 diwrnod neu fwy

CAIS AM WYLIAU TEULU YN YSTOD Y TYMOR

Mae cyfarwyddiadau gan y Llywodraeth drwy'r Cyngor Sir ynglŷn â chyfrifoldeb yr ysgol wrth awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor ym mholisi Presenoldeb y Llywodraethwyr. Er mwyn i ni allu awdurdodi unrhyw wyliau yn ystod y tymor ysgol mae'n rhaid i rieni wneud **cais ysgrifenedig i'r ysgol cyn mynd ar wyliau**.

Mae gan Corff Llywodraethu'r Ysgol ddisgresiwn sydd wedi ei ddirprwyo ganddynt i'r Tîm Rheoli i awdurdodi gwyliau ai peidio. Bydd hyn yn dibynnu ar hyd y gwyliau ac unrhyw wyliau blaenorol, cyfradd presenoldeb cyfredol y disgybl, yr adeg o'r flwyddyn ac effaith ar ddilyniant addysgol y disgybl, os yw'n tarfu ar asesiadau / arholiadau. Ni fyddwn yn awdurdodi mwy na 5 diwrnod o wyliau mewn unrhyw flwyddyn ysgol i ddisgyblion blynyddoedd 7 - 9.

Os na fyddwn yn gallu awdurdodi gwyliau o flaen llaw bydd yn ymddangos fel absenoldeb anawdurdodedig ar record y disgybl.

NI CHAWN AWDURDODI ABSENOLDEB GWYLIAU YN YSTOD Y TYMOR I DDISGYBLION BLYNYDDOEDD 10 AC 11 GAN EI FOD YN ANORFOD AM GAEL EFFAITH AR GYNNYDD EICH MAB/MERCH, ONI BAI BOD YNA AMGYLCHIADAU EITHRIADOL IAWN.

ABSENOLDEB - TREFN CYSYLLTU

Er mwyn sicrhau fod pawb sydd i fod yn yr ysgol yn bresennol gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol ar fore unrhyw absenoldeb fel ein bod yn gwybod os yw eich mab/merch i fod yma ai peidio.

Gofynnwn i chi adael i ni wybod os yw eich mab / merch yn absennol drwy ffonio 01758 730220 rhwng 8:00 a 9:15.

Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9:15 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna byddwn yn cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

TYWYDD GARW A CHAU'R YSGOL

Os cyfyd sefyllfa pan fo rhaid cau'r ysgol oherwydd rhesymau tu allan i'n rheolaeth - tywydd, dim trydan neu ddŵr, ac yn y blaen; byddwn yn ceisio gyrru neges destun i'r cartref i'ch hysbysu. Gallwn yrru neges i bob cartref o fewn munudau i'ch hysbysu - cyn belled fod gennym rif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost dilys.

Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddiad ar Radio Cymru rhwng 7:00 ac 8:00 y bore ac ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.gov.uk

Os oes rhaid cau'r ysgol yn ystod y dydd a bod angen anfon y plant gartref oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch - dyma fydd y drefn:-

- i. y plant i fynd adref ar y bws (os mai felly maent yn dod i'r ysgol)
- ii. wedi dod oddi ar y bws y plant i fynd i'w cartrefi neu i dŷ perthynas neu ffrind (yn ôl eich cyfarwyddyd chi fel rhieni).

Y GYMDEITHAS RIENI

FFAIR GREFFTAU

Eleni eto bu'r Gymdeithas Rieni yn brysur yn trefnu Ffair Grefftau. Cafwyd ffair lwyddiannus iawn a gwnaed elw o dros £1200.

CLWB CODI ARIAN

Mae'r Clwb Codi Arian yn cael ei dynnu yn dymhorol gyda chyfle i ennill hyd at £100. A ydych chi'n aelod? - £12.00 y flwyddyn (siec i'r ysgol neu archeb banc). Bydd y ffurflenni ymuno yn cael eu dosbarthu'n fuan. Manylion gan Mrs Nerys Williams, yr ysgrifenyddes - 01758 730220.

AILGYLCHU DILLAD

Mae'r blwch ail gylchu dillad Antur Waunfawr yn llwyddiannus hefyd ac wedi codi dros £200 y llynedd. Cofiwch, os oes gennych ddillad i'w hail-gylchu y gallwch eu rhoi yn y bin ailgylchu ger maes parcio'r ysgol.

Diolch i bawb a gefnogodd y Gymdeithas yn y mentrau hyn. Mae'r arian yma i gyd yn mynd i brynu offer addysgol i'r ysgol er budd y plant.

Os hoffech gynorthwyo'r Gymdeithas Rieni, yna cysylltwch â'r ysgol neu un o'r swyddogion.

Swyddogion: Cadeiryddes - Mrs Glesni Owen; Ysgrifenyddes - Mrs Carys Evans.

AILGYLCHU GWISG YSGOL

CYDWEITHIO GYDA

Cofiwch bod siop Tenovus, Pwllheli wedi cytuno i gydweithio gyda'r ysgol i werthu gwisg ail-law. Os oes gennych eitemau gwisg ysgol mewn cyflwr da nad ydych eu hangen bellach, yna byddai siop Tenovus, Pwllheli yn falch o'u cael er mwyn eu gwerthu ymlaen.

NOSON GOFFI BLWYDDYN 11

Eto eleni bu'r Noson Goffi flynyddol yn llwyddiant ysgubol. Er mwyn codi arian, trefnwyd nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys Disgo Calan Gaeaf.

Llongyfarchiadau mawr i'r pwyllgor am eu gwaith caled wrth baratoi llw o weithgareddau codi arian. Llwyddwyd i godi dros £6500 i'w ddosbarthu i elusennau o ddewis y pwyllgor gan gynnwys:

Ambiwlans Awyr Cymru, Ymchwil Cancr, Ymgyrch Ceri Haf, Little Princess Trust a Chlwb Hoci Pwllheli.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb wnaeth gyfrannu eitemau ar gyfer y Noson Goffi ac i bawb wnaeth gefnogi'r noson mewn unrhyw ffordd.

AROLOGYIAD ESTYN

Yn ystod y tymor diwethaf, bu Estyn, arolygwyr ysgolion Cymru, yma am wythnos yn arolygu pob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae eu hadroddiad llawn ar gael ar wefan Estyn neu ar wefan yr ysgol.

Yn yr adroddiad ceir llawer o ganmoliaeth o'r disgyblion a gwaith yr ysgol, yn ogystal ag ambell i awgrymiad i ni ddatblygu ymhellach fel ysgol. Dyma grynodedb Estyn:

"Mae Ysgol Botwnnog yn ysgol ofalgar a chlòs sydd yn chwarae rhan allweddol yn ei chymuned leol. Mae arweinyddiaeth gadarn wedi sicrhau ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn ymysg disgyblion a staff yr ysgol. Mae wedi arwain hefyd at safonau lles uchel ac addysgu o ansawdd uchel.

Mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn ardderchog ac mae llawer yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r ysgol a'r ardal trwy weithgareddau allgyrsiol ac elusennol. Mae agweddau disgyblion tuag at ddysgu yn gryfder nodedig. Maent yn gwrtais a moesgar ac yn dangos parch at gyfraniadau eu cyfoedion ac athrawon yn y gwersi. Medda'r disgyblion ar fedrau cymdeithasol aeddfed a chaboledig. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o ran eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

Mae darparu gofal a chymorth o'r radd flaenaf ac arlwy gyfoethog o brofiadau dysgu yn greiddiol i waith yr ysgol. Mae disgyblion yn elwa ar gefnogaeth gynhwysfawr, addysgu cadarn ac amryfal brofiadau gwerthfawr sydd yn ehangu eu gorwelion ac yn cyfrannu'n bwysig at eu hunaniaeth Gymreig."

Barnwyd yr ysgol yn "Dda" neu'n "Ragorol" ym mhob maes arolygu.